CANLLAW DISGYBLION AR GYFER DEFNYDDIO PROFION LLIF UNFFORDD (LFT) (10.03.21)

Gwnewch y prawf rhwng 5- 7pm bob DYDD SUL a DYDD MERCHER gan ddilyn y cyfarwyddiadau. Cofnodwch y canlyniad erbyn 8pm

NODYN: ■ Defnyddiwch yr eitemau yn y pecyn profi unwaith yn unig ■ Peidiwch yfed na bwyta am o leiaf 30 munud cyn profi

■ Defnyddiwch becyn unigol i bob person ■ Os ydych yn arddangos symptomau covid-19 peidiwch defnyddio'r prawf llif unffordd (LFT), ewch am brawf PCR yn lle

■ Ni ddylech ddefnyddio prawf llif unffordd (LFT) os ydych wedi cael canlyniad positif Covid-19 yn ystod y 90 diwrnod diwethaf

CANLYNIAD POSITIF (Rhowch y prawf mewn bag a cadwch am 72 awr cyn ei waredu mewn bag du)

■ Hysbyswch yr ysgol o ganlyniad positif yn syth drwy gysylltu ar: LFT@penweddig.ceredigion.sch.uk
■ Cofnodwch y canlyniad gan ddefnyddio'r rhif ar y prawf ar wefan GIG*
■ Trefnwch brawf PCR
■ Bydd angen i chi, aelodau eich cartref a'r grŵp cyswllt hunan-ynysu yn syth hyd nes y ceir canlyniad y prawf PCR

Canlyniad PCR POSITIF
■ Hysbyswch yr ysgol o'r canlyniad
■ Bydd angen i chi, aelodau eich cartref a'r grŵp cyswllt barhau i hunan-ynysu am 10 diwrnod o'r prawf llif unffordd (LFT) positif

CANLYNIAD NEGYDDOL (Rhowch y prawf mewn bag cyn ei waredu mewn bag du)

■ Cofnodwch y canlyniad gan ddefnyddio'r rhif ar y prawf ar wefan GIG*
■ Nid oes angen i chi hysbysu'r ysgol o ganlyniad negyddol
■ Mynychwch yr ysgol fel arfer

Canlyniad PCR NEGYDDOL
■ Hysbyswch yr ysgol o'r canlyniad
■ Gallwch chi a'r Grŵp cyswllt ddychwelyd i'r ysgol cyhyd eich bod yn iach. Ni fydd angen i aelodau eich cartref barhau i hunan-ynysu.

CANLYNIAD ANNILYS (Rhowch y prawf mewn bag a cadwch am 72 awr cyn ei waredu mewn bag du)

■ Bydd angen i chi wneud prawf arall. Defnyddiwch becyn prawf newydd, peidiwch ailddefnyddio unrhyw eitem o'r pecyn cyntaf.

■ Os ydych yn cael canlyniad annilys arall, bydd angen i chi ddilyn yr un camau y byddech yn gwneud petaech wedi cael canlyniad positif ond gan nodi eich bod wedi cael 2 ganlyniad annilys
■ Cofnodwch unrhyw ganlyniad annilys gan ddefnyddio'r rhif ar y prawf ar wefan GIG*

DOLEN

*** Gwefan GIG :** Report a COVID-19 test result - GOV.UK (www.gov.uk)neu ffoniwch 119 (7 am -11pm)